| Yn bresennol: | Ymddiheuriadau: |
| --- | --- |
| - Rhun ap Iorwerth AS<br>- Hefin David AS<br>- Lynne Kelly (Hemoffilia Cymru)<br>- Sam Jones<br>- Lucy O'Brien<br>- Marcus Lewis<br>- Sue Sparkes<br>- Meinir Gooch<br>- Rose Richards<br>- Tony Lane<br>- Michael O'Connell<br>- Helen West (Julie Morgan AS)<br>- Rhian Davies<br>- Eleri Morgan<br>- Tony Summers<br>- Gill Purnell | - Darren Millar AS<br>- Mark Isherwood AS<br>- Michael Imperato |

Rhun ap Iorwerth AS:

- Agorodd y cyfarfod.
- Eglurodd fod Michael Imperato yn rhedeg yn hwyr ac y byddai'n ymuno yn nes ymlaen.
- Trosglwyddodd yr awenau i Lynne Kelly er mwyn iddi allu rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf.

*Cafwyd rhai trafferthion â'r cyfleuster cyfieithu ar y pryd*

Lynne Kelly:

- Dechreuodd drwy fynd drwy'r prif argymhellion a wnaed gan Syr Brian Langstaff yn ei ail adroddiad interim.
- Trafododd yr adroddiad terfynol, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn yr hydref, a'r hyn sy'n rhaid ei wneud cyn hynny – yn bennaf, parhau i ymchwilio i wahanol ffyrdd o roi pwysau ar Lywodraeth y DU i dderbyn yr argymhellion.
- Trafododd yr adroddiad gan Syr Robert Francis a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, gan nodi na chymerodd Llywodraeth y DU unrhyw gamau gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw.
- Trafododd ddatganiad Jeremy Quinn AS, y Tâl-feistr Cyffredinol, ar 19.4.23, pan soniodd fod y Llywodraeth yn gweithio ar y materion hyn 'yn gyflym'.
- Anogodd bawb i barhau i gysylltu â'i Aelod Seneddol lleol.
- Mynegodd deimladau o rwystredigaeth fod Sue Gray, y gwas sifil blaenllaw yn y maes hwn, wedi gadael ei swydd yn ddiweddar, o gofio y gallai hyn arwain at oedi pellach. Hefyd, nododd fod angen i gyfarfodydd y Grŵp Hollbleidiol ddechrau arwain at fwy o gamau gweithredu yn cael eu cymryd.

- Rhoddodd wybod ei bod hi wedi cyfarfod â David TC Davies AS yn ddiweddar yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Seneddol lleol, nid fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru.
- Yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diweddar y Grŵp Hollbleidiol, cafwyd cytundeb â'r argymhellion yn adroddiad Syr Brian Langstaff, a nodwyd mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y materion hyn oherwydd bod y digwyddiadau dan sylw wedi digwydd cyn datganoli.
- Mynegwyd pryderon ynghylch rôl Peter Bottomley fel cadeirydd y grŵp oherwydd y gwrthdaro buddiannau posibl o gofio bod ei wraig - Virginia Bottomley - wedi gwasanaethu fel Gweinidog Iechyd yn ystod cyfnod y digwyddiadau.

Rhun ap Iorwerth AS:

- Cytunodd y gallai fod gwrthdaro buddiannau posibl o ran rôl Peter Bottomley fel cadeirydd y Grŵp Hollbleidiol.
- Awgrymodd ddau bwynt gweithredu:
  - ysgrifennu fel grŵp at bob Aelod Seneddol; a
  - threfnu cyfarfod ar y cyd rhwng y Grŵp Trawsbleidiol yn y Senedd a'r Grŵp Hollbleidiol.
- Gofynnodd am unrhyw sylwadau gan aelodau'r grŵp.

Hefin David AS:

- Pwysleisiodd yr angen i nodi pwyntiau gweithredu penodol erbyn diwedd y drafodaeth hon.

Rhun ap Iorwerth AS:

- Awgrymodd y dylid ysgrifennu at Jeremy Hunt - *cytunodd y grŵp*

Sue Sparks:

- Eglurodd ei bod yn bresennol yn y cyfarfod o dan sylw a bod ganddi gwestiynau ychwanegol i'r Tâl-feistr Cyffredinol ynghylch beth yn union sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni yn Llywodraeth y DU i weithredu'r argymhellion hyn.
- Mynegodd ei rhwystredigaeth ei bod wedi methu â chael ateb gan ei Haelod Seneddol. *Aelodau eraill o'r grŵp sydd wedi cael yr un broblem yn rhannu'r teimlad o rwystredigaeth*

Lynne Kelly:

- Trafododd y syniad o gael templed e-bost, ond ychwanegodd fod tystiolaeth o'r gorffennol yn profi eu bod fel arfer yn cael eu hanwybyddu.
- Dywedodd fod Andrew RT Davies AS wedi ysgrifennu at Jeremy Quinn ynghylch rhai o'r prif bryderon sydd wedi'u mynegi, ond nid oedd wedi cael ymateb eto.

Hefin David AS

- Ailgyflwynodd y syniad o gynnal cyfarfod ar y cyd.

Lynne Kelly:

- Yn gefnogol o'r syniad, ond nododd fod cyfarfodydd o'r fath wedi'u trefnu yn y gorffennol ond eu bod heb ddigwydd.

Hefin David AS:

- Awgrymodd y gallai cynnal y cyfarfod ar-lein helpu i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cymryd rhan.

- Cytunodd â'r pwynt a wnaed yn gynharach ynghylch gwrthdaro buddiannau posibl o ran rôl Peter Bottomley.
- Awgrymodd y dylid siarad â Jo Stevens AS a Jessica Morden AS i drafod cynnal cyfarfod ar y cyd, ac y dylai'r cais hwn ddod oddi wrth Rhun ac ef ei hun.

Sue Sparks:

- Pwysleisiodd yr angen i glywed gan y gwrthbleidiau.

Hefin David AS:

- Ymrwymodd i ysgrifennu at y Gweinidog cysgodol ynghylch safbwynt Llafur ar yr argymhellion a wnaed.

Rhun ap Iorwerth AS:

- Tynnodd sylw at broblemau cyfansoddiadol posibl sy'n gysylltiedig â threfnu cyfarfod ar y cyd, ond ychwanegodd fod datrysiadau amgen yn siŵr o fod ar gael.
- Gofynnodd a oedd pawb wedi llwyddo i gael cyfarfod â'i Aelod Seneddol.

Rose Richards:

- Nododd fod yr ymchwiliad wedi bod yn llafurus ac wedi cymryd llawer o amser, felly dim ond nawr maen nhw wedi dod o hyd i'r egni i gymryd y cam hwnnw.

Lynne Kelly:

- Nododd ei bod wedi cael cyfarfod â David Jones AS ddoe (yn anfoddog), sydd â pherthynas dda â Jeremy Quinn.
- Gwahoddodd unrhyw un sy'n teimlo bod angen cymorth ychwanegol arno i drefnu cyfarfod â'i Aelod Seneddol i gysylltu â hi.

Meinir:

- Mynegodd ei theimladau o rwystredigaeth am fethu â chael ymateb gan Alex Davies-Jones AS.
- Eglurodd fod llawer o bobl yn y gymuned yn wynebu'r un broblem.

Lucy O'Brien:

- Rhannodd y pryder a fynegwyd mewn erthygl yn y *Financial Times* a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi y bydd yr arian a ddefnyddir i dalu iawndal i ddioddefwyr yn golygu toriadau i wasanaethau cyhoeddus, gan awgrymu fod hyn yn ymgais i ddylanwadu ar farn y cyhoedd.

Lynne Kelly:

- Pwysleisiodd yr angen i ddal ati, gan nodi faint o gynnydd sydd wedi'i wneud ers y camau cychwynnol.

Rhun ap Iorwerth AS:

- Awgrymodd y dylid ceisio dwyn sylw'r wasg at y materion hyn ac ailadroddodd y byddant yn llwyddo i gyflawni eu nodau.

Lynne Kelly:

- Dywedodd ei bod yn rhannu'r pryderon ynghylch diffyg rhyngweithio rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- Hefyd, tynnodd sylw at wrthdaro buddiannau posibl arall o ran rôl Chris Wormald KCB oherwydd bod ei dad yn gysylltiedig â'r sector iechyd yn ystod cyfnod y digwyddiad.

Rhun ap Iorwerth AS:

- Daeth â'r cyfarfod i ben drwy bwysleisio'r pwyntiau gweithredu allweddol:
    - Ysgrifennu at Jeremy Hunt fel grŵp;
    - Hefin David AS i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog cysgodol;
    - cysylltu â chadeiryddion y Grŵp Hollbleidiol yn San Steffan i drefnu cyfarfod ar y cyd; ac
    - ystyried ffyrdd effeithiol o gyfleu'r stori hon yn y wasg.

*Diwedd y cyfarfod*

Dyddiad y cyfarfod nesaf:  I'w gadarnhau.